

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL DYDD MERCHER, 21 TACHWEDD 2018

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Annwen Hughes ac Edgar Owen

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

### 1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

### 4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD** cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

### 5. CAIS AM DRWYDDED HACNI/HURIO PREIFAT

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nŵd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau

trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a cholffarnau perthnasol. Amlygwyd bod yr ymgeisydd yn yrrwr trwyddedig gyda'r Cyngor yn ystod digwyddiad a arweiniodd at dderbyn rhybudd gan Heddlu Gogledd Cymru yn Mai 2017. Yn unol ag amodau trwydded gyrwyr tacsï mae'n ofynnol bod gyrrwr yn hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu o unrhyw gollfarn neu ddigwyddiad troseddol sydd yn arwain at dderbyn Rhybudd gan yr Heddlu

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais a chynnig rhesymau dros beidio a rhoi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu am y rhybudd a dderbyniodd gan Heddlu Gogledd Cymru (Mai 2017) am ymddygiad afreolus. Nododd Mr A bod y digwyddiad wedi cymryd lle ar ei noson stag a bod ei ymddygiad allan o gymeriad. Roedd yn edifar am yr hyn a wnaeth ac eglurodd ei fod wedi ymddiheuro i berchennog y siop am ei ymddygiad ar y bore canlynol. Nid oedd yn ymwybodol bod derbyn rhybudd yn cael ei ystyried fel collfarn ac y byddai yn ymddangos ar ei gofnod DBS.

Gwahoddwyd cyflogwr yr ymgeisydd i gyflwyno sylwadau a cadarnhaodd nad oedd yn ymwybodol o'r rhybudd pan gynigodd swydd i Mr A er bod yr ymgeisydd bellach wedi rhoi eglurhad llawn iddo o'r digwyddiad. Ategodd y cyflogwr bod yr ymgeisydd yn yrrwr da ac nad oedd unrhyw gwynion wedi ei dderbyn am ei waith o gludo pobl yn nol ac ymlaen i'r ysbyty.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**PENDERFYNWYD nad oedd yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth wneud eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar, dogfennau, lluniau a gyflwynodd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawriad
- sylwadau llafar cyflogwr yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS oedd yn datgelu collfarnau.

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol.

Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarnau am gyfres o droseddau (Ionawr 2010). Roedd y drosedd gyntaf am fethu ac ildio i'r ddalfa ar yr amser a nodwyd yn groes i ofynion adran 6 Deddf Mechnïaeth 1976. Cafodd ddirwy o £100 a gorchymyn i dalu £85 costau. Roedd yr ail drosedd o fod yn feddw ac afreolus o dan Adran 91 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1967 (Ionawr 2010) lle cafodd ddirwy o £50. Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn gan Lys Ynadon Wolverhampton (Chwefror 2010) am ddinistrio eiddo yn groes i adran 1 Deddf Difrod Troseddol 1971. Cafodd ddirwy o £65 a gorchymyn i dalu costau o £85. Yn Mai 2017 derbyniodd yr ymgeisydd rhybudd gan Heddlu Gogledd Cymru am ddefnyddio geiriau / ymddygiad bygythiol a sarhaus / ymddygiad afreolus er mwyn achosi braw / trallod yn groes i Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidwydd i berson sydd â cholffarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Ystyriwyd paragraff 2.3 o'r Polisi lle cyfeirir at 'faterion eraill i'w hystyried'

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwy'r 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Mae paragraff 6.5 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried (gan gynnwys rhybuddion) am ymosodiad cyffredin sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Nodi'r hefyd, ym mharagraff 6.6, y bydd cais yn cael ei wrthod os oes mwy nag un gollfarn am drosedd o natur dreisgar yn erbyn yr ymgeisydd, neu fater arall i'w ystyried yn gysylltiedig â hynny o fewn y 10 mlynedd diwethaf

Rhoddodd yr Is Bwyllgor ystyriaeth hefyd i baragraff 16.1 o bolisi'r Cyngor sydd yn ymwneud ag ail-droseddu. Rhaid yn gyntaf sicrhau bod y collfarnau'n bodloni canllawiau'r polisi yn unigol, ond gyda'i gilydd yn creu hanes o ail-droseddu sydd yn dangos diffyg parch at les eraill ac eiddo. O dan y Polisi rhaid bod 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn fwyaf diweddar.

Nododd yr Is Bwyllgor nad oedd darpariaethau penodol yn y Polisi at y ddwy drosedd gyntaf (methu ag ildio i'r ddalfa a bod yn feddw ac afreolus). Er bod y troseddau'n amlygu pryder, roeddynt tu hwnt i ofnyon y polisi o 3 blynedd ac nid yn sail ddigonol i wrthod y cais.

Er hynny, roedd yr Is Bwyllgor yn ystyried bod y drosedd o greu difrod a'r rhybudd a dderbyniwyd yn 2017 yn droseddau o drais a hefyd yn cyfrif fel mwy nag un drosedd o fewn y deg mlynedd ddiwethaf o droseddau o natur dreisgar. Roedd hyn yn sail i ystyried paragraff 6.6 o'r polisi. Yn ychwanegol, roedd y ddwy drosedd hefyd yn creu hanes o ail-droseddu sydd yn dangos diffyg parch at les eraill ac eiddo. O dan paragraff 16.6 o'r polisi rhaid bod 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn fwyaf diweddar.

O dan ddarpariaethau Adrannau 51, 55, a 59 o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu sicrhau bod y sawl sy'n ymgeisio am drwydded gyrrwr / gweithredwr, neu i adnewyddu trwydded o'r fath, yn unigolyn 'addas a phriodol' i ddal y drwydded honno. Fodd bynnag, os oes unrhyw faterion i'w hystyried yng nghyswllt yr ymgeisydd / deilydd y drwydded, rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ystyried difrifoldeb, perthnasedd, dyddiad y drosedd, dyddiad y gollfarn, oedran ar adeg y gollfarn, math o ddeddfryd, patrwm o droseddu ac arall.

Wedi ystyried cefndir y digwyddiad yn 2017 nid oedd yr Is Bwyllgor yn fodlon, er i'r ymgeisydd gyfaddef ei fod yn euog, bod y rhesymau dros ei ymddygiad yn ddigonol i esgusodi'r drosedd. Nodwyd bod gan yr ymgeisydd drwydded gyrru hacni ar yr amser y derbyniodd rybudd gan Heddlu Gogledd Cymru ond nad oedd y wybodaeth yma wedi cael ei rannu gyda'r Adran Trwyddedu. Ymddengys bod y wybodaeth wedi ei rannu wrth gwblhau cais adnewyddu trwydded. Er eglurhad yr ymgeisydd nad oedd yn ymwybodol bod angen datgelu'r wybodaeth am y

rhybudd nid oedd yr Is Bwyllgor yn derbyn hyn gan fod ffurflen gais am drwydded yn nodi yn glir yr angen am wybodaeth troseddau a rhybuddion. Fel gyrrwr, dylai fod yn ymwybodol o'r angen yma.

Ystyriodd yr Is bwyllgor nad oedd yr ymgeisydd wedi gwneud datganiad gonest i'w gyflogwr a bod hyn yn amlygu ynddo'i hun, nad oedd yn berson addas a phriodol.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd a bod hawl ganddo i gyflwyno apêl yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor o fewn cyfnod o 21 diwrnod o dderbyn y llythyr.

## 6. CAIS AM DRWYDDED HACNI/HURIO PREIFAT

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais a chynnig eglurhad am y troseddau. Nododd bod ganddo ddiddordeb mawr mewn ceir a gyrru ceir a'i fod yn y broses o agor garej yn y dyfodol agos. Ategodd ei fod wedi cwblhau nifer o gyrsiau gyrru ac y byddai swydd fel gyrrwr tacsî yn gyfle i dderbyn incwm ychwanegol i gefnogi ei fenter. Nododd bod AS Cabs wedi cynnig oriau hyblyg iddo fel gyrrwr petai ei gais yn llwyddiannus, ei fod wedi cwblhau prawf iechyd ac yn talu am ei drwydded ei hun. Cadarnhoedd nad oedd wedi yfed alcohol ers 2005 ac nad oedd yn defnyddio cyffuriau.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth wneud eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar, dogfennau, lluniau a gyflwynodd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawriad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS oedd yn datgelu collfarnau

Rhodddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol.

Derbyniodd yr ymgeisydd golffarn (Mawrth 2006) gan Lys y Goron Yr Wyddgrug am achosi anaf i unigolyn yn groes i ddarpariaethau Deddf Troseddau yn erbyn

Person 1861. Cafodd ddedfryd o garchar am 9 mis oedd wedi ei atal am 2 flynedd, 12 mis o orchymyn gwarchodaeth, 250 o oriau di-dâl a gorchymyn i dalu £600 o gostau. Ym mis Mai 2011 derbyniodd gollfarn gan Lys Ynadon Gwynedd am ddwy drosedd yn ymwneud a chyffuriau yn groes i Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 - un am gynhyrchu canabis ac un o gael resin canabis yn ei feddiant (Rhagfyr 2010). Cafodd ei ddedfrydu i 12 mis o orchymyn cymunedol a gorchymyn i wneud 80 awr o waith di-dâl am feddiant a dedfryd o 12 mis o orchymyn cymunedol, gorchymyn i wneud 80 awr o waith di-dâl a chostau o £85. Cafodd y cyffuriau eu cymryd a'u dinistrio.

Tynwyd sylw bod yr ymgeisydd wedi nodi yn wirfoddol ar ei ffurflen gais bod ganddo gollfarn am yrru cerbyd heb yswiriant (Gorffennaf 2012) lle derbyniodd 3 pwynt.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â cholffarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwy 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Mae paragraff 6.5 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried (gan gynnwys rhybuddion) am ymosodiad cyffredin sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais.

Ystyriwyd adran 9.0 o'r Polisi sydd yn trafod troseddau sydd yn ymwneud a chyffuriau ac amlygwyd bod adran 9.1 yn amlinellu bod unrhyw drosedd sydd yn ymwneud a chyffuriau yn fater difrifol ac y dylid ystyried natur a swm y cyffur dan sylw. Ategwyd y byddai cais yn cael ei wrthod os oes mwy nag un gollfarn yn erbyn yr ymgeisydd am droseddau'n gysylltiedig â bod â chyffuriau mewn meddiant, ac nad yw wedi bod yn rhydd rhag collfarn(au) am 5 mlynedd o leiaf. Mae paragraff 9.4 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes rhybudd unigol am drosedd yn gysylltiedig â bod mewn meddiant a chyffuriau o fewn y 3 blynedd diwethaf.

Mae paragraff 12.2 yn diffinio troseddau difrifol sydd yn cynnwys gyrru cerbyd heb yswiriant gyda 12.3 yn nodi y byddai cais yn cael ei wrthod os oes collfarn yn erbyn yr ymgeisydd ac nad yw wedi bod yn rhydd rhag collfarn am 6 mis o leiaf.

Rhoddodd yr Is Bwyllgor ystyriaeth hefyd i baragraff 16.1 o bolisi'r Cyngor sydd yn ymwneud ag ail-droseddu. Rhaid yn gyntaf sicrhau bod y collfarnau'n bodloni canllawiau'r polisi yn unigol, ond gyda'i gilydd yn creu hanes o ail-droseddu sydd yn dangos diffyg parch at les eraill ac eiddo. O dan y Polisi rhaid bod 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn fwyaf diweddar.

Ystyriodd yr Is Bwyllgor bod y gollfarn gyntaf yn gyfystyr a throsedd o drais ond gyda 12 mlynedd wedi mynd heibio nid oedd yn sail i wrthod y cais. Er hynny, gallai fod yn sail i wrthod y cais yn rhinwedd paragraff 16.1. Ystyriodd yr Is Bwyllgor bod yr ail gollfarn yn ymwneud a throseddau cyffuriau, ond gyda 7 mlynedd wedi mynd heibio nid oedd yn sail ar gyfer

gwrthod y cais. Ystyriodd y r Is bwyllgor bod y drosedd o yrru heb yswiriant yn drosedd draffig difrifol ond eto, gyda'r 8 mlynedd wedi yn heibio nid oedd yn sail i wrthod y cais.

Fodd bynnag, roedd y ddwy drosedd gyntaf yn creu hanes o ail-droseddu sydd yn dangos diffyg parch at les eraill ac eiddo ac o ganlyniad rhaid oedd ystyried paragraff 16.6 o'r polisi sydd yn nodi rhaid bod 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn fwyaf diweddar.

Amlygodd y Cyfreithiwr nad yw darpariaethau'r Polisi yn orfodol a bod modd gwyro oddi ar yr argymhellion os yw ffeithiau'r achos yn cyfiawnhau hynny. Ar ôl ystyried eglurhad yr ymgeisydd dros amgylchiadau'r collfarnau, penderfynodd yr Is Bwyllgor bod amgylchiadau'r cais yn cyfiawnhau ymadawiad o'r gwaharddiad o dan y Polisi, am y rhesymau a ganlyn:

- Roedd yr ymgeisydd wedi cadarnhau bod collfarn 2005 wedi digwyddiad yn ystod Gŵyl Sesiwn Fawr Dolgellau lle bu i ddau ddyn ymosod arno. Collodd yr ymgeisydd ei dymer a thafu potel ar un o'r dynion. Cyrhaeddodd y plismyn a chyfaddefodd ei fod yn euog a chafodd ei gymryd i'r celloedd. Nododd ei fod wedi ymatal rhag yfed alcohol ers y digwyddiad hwn. Barn yr Is-bwyllgor oedd bod yr euogfarn yma yn ddigwyddiad unigol lle cafodd ei ysgogi, allan o gymeriad ac wedi sbarduno newid agwedd. Roedd absenoldeb unrhyw droseddau trais ychwanegol, yn ogystal ag atal yfed alcohol ers y digwyddiad yn cryfhau'r achos.
- Cadarnhaodd yr ymgeisydd bod y gollfarn 2011 yn gysylltiedig â digwyddiad lle gadawodd i'w ffrind adael un planhigyn canabis ar ei eiddo. Nododd nad oedd wedi cymryd cyffuriau nac yn chwarae unrhyw ran mewn cynhyrchu cyffuriau. Er bod gan yr Is-bwyllgor farn gadarn ar gyffuriau anghyfreithlon, ystyriwyd bod ymddygiad yr ymgeisydd yn yr achos yma yn eithaf diniwed a bod dedfryd o orchymyn cymunedol ( a dim dirwy) gan y Llys Ynadon yn adlewyrchu hyn. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o gynhyrchu ar raddfa fawr, ac nid oedd dystiolaeth o unrhyw enillion economaidd.

O dan yr amgylchiadau, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod Mr A yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr hacni a hurio preifat. Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.15 y.h. a daeth i ben am 3.25 y.h.

**CADEIRYDD**